Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod BLYNYDDOL y Cyngor a gynhaliwyd yn rhithiol ar y 6ed o Fai 2021 am 7 pm.

1 Croesawu'r Cyhoedd – Nid oedd neb o'r cyhoedd yn bresennol.

2 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd - Cynigiwyd Richard Williams i barhau fel Cadeirydd a chynigiwyd Gwenno Emlyn Huws i barhau fel is-gadeirydd. (Huw Pritchard yn cynnig ac Edward Evans yn eilio)

3 Presennol – Richard Williams (Cadeirydd) – Prenteg, Edward Evans, Richard Parry – Bryncir, John Jones – Garndolbenmaen, Megan Ll Williams – Golan, Huw Pritchard Delyth Evans– Pentrefelin, Dafydd Thomas, Gwenno Emlyn Huws, Iddon Edwards – Penmorfa. Cynghorydd Alwyn Gruffydd.

4 Ymddiheuriadau – Anwen Humphreys (dim mynediad i offer TG, cyswllt rheolaidd ar y ffôn), Gwilym Evans, Dylan Pritchard, Manon Jones Evans, Clifford Williams, Amanda N Owen.

5 Ddim yn bresennol – neb.

6 Datgan Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2020 – Richard Parry yn datgan eu cywirdeb a Gwenno Emlyn Huws yn eilio.

7 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion - Dim

8 Adroddiad Blynyddol y Cyngor

Cyflwynodd y Clerc adroddiad o waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

9 Unllais Cymru – Cynrychiolwyr y Pwyllgor Rhanbarth

Cytunodd Dafydd Thomas a Megan Ll Williams i barhau i gynrychioli'r Cyngor ar y Pwyllgor uchod.

10 Mabwysiadu Polisïau'r Cyngor

Mabwysiadwyd y polisïau canlynol: Cynllun Iaith Cymraeg, Cod Ymddygiad, Cynllun Cyhoeddi, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol.

11 Aelodaeth is-bwyllgorau a'r misoedd dylid eu cynnal

Penderfynwyd newid dyddiad is-bwyllgor Mynwentydd i mis Mai ac is-bwyllgor Cyllid a Llywodraethiant i mis Rhagfyr.

12 Llawr yn Agored – dim.

Cyrhaeddodd y Cynghorydd Dafydd Thomas y cyfarfod.

13 UFA

Ail gychwyn cyfarfodydd yng Nghanolfan Golan - penderfynwyd ail gychwyn cyfarfod ym mis Medi os fydd canllawiau yn caniatáu hyn. Megan Lloyd Williams yn cynnig a Gwenno Emlyn Huws yn eilio.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei gwaith yn ystod y flwyddyn ac i'r Aelodau am eu hamynedd yn ystod cyfnod gwahanol iawn i'r arfer.